

TELERAU AC AMODAU

Mae'r telerau ac amodau canlynol yn ymwneud ag unrhyw fwciaidau ar gyfer cynadleddau a drefnir gan Brifysgol De Cymru ("y Brifysgol") sy'n masnachu fel Cynadledda a Chyfleusterau Prifysgol De Cymru (USWCEF), ac maent yn cwmpasu darparu cyfleusterau cynadledda, gwasanaethau arwylo, a chyfleusterau eraill a nodir yn ein Contract.

CYNADLEDDAU/DIGWYDDIADAU

BWCIO

Mae pob cais i logi cyfleusterau cynadledda a/neu gyfleusterau eraill i gynnal digwyddiad yn y Brifysgol yn amodol ar argaeledd.

Bydd bwcio dros y ffôn i gynnal digwyddiad yn y Brifysgol yn drefniant dros dro hyd nes y llofnodir contract, ac y telir 50% o bris llogi'r lleoliad i'r Brifysgol, fel ffi bwcio na ad-delir.

Bydd angen talu'r taliad llawn os yw gwerth y bwciad yn llai na £100.00 (heb TAW) a/neu os yw'r digwyddiad arfaethedig lai na phedair (4) wythnos o'r dyddiad bwcio.

Mae'r ffi bwcio yn cynnwys llogi lleoliadau cyfarfod a digwyddiadau dibreswyl yn unig.

Mae USWCEF yn cadw'r hawl i ryddhau'r lle, fel mater o drefn, os na dderbynnir y ffi bwcio, neu'r taliad llawn os yw'n llai na £100.00 (heb TAW) fel cyllid wedi'i glirio yn ein cyfrif banc trideg (30) diwrnod o ddyddiad yr anfoneb, oni bai bod y digwyddiad arfaethedig lai na phedair (4) wythnos o'r dyddiad bwcio; yn yr achos hwnnw, bydd angen talu'r taliad llawn wrth fwcio'r digwyddiad.

Os bydd telerau credyd wedi cael eu cytuno, derbynnir Archeb Prynu (PO) swyddogol ar gyfer cost y digwyddiad cyfan, ar yr amod bod y telerau talu yn drideg (30) diwrnod o ddyddiad yr anfoneb ar y mwyaf.

Sylwer na ad-delir y ffi bwcio os caiff y bwciad ei ganslo.

TALU

Bydd anfoneb am y taliad llawn, ac eithrio'r ffi bwcio, yn cael ei hanfon at y llogwr yn dilyn y digwyddiad, a rhaid setlo'r cyfrif terfynol o fewn trideg (30) diwrnod o ddyddiad yr anfoneb. Bydd dyledwyr â ffioedd dyledus yn destun camau pellach (a allai gynnwys achos cyfreithiol) i adennill y symiau dyledus. Bydd unrhyw gostau cysylltiedig (gan gynnwys rhai cyfreithiol) i'r Brifysgol yn cael eu ceisio gan y dyledwr hefyd.

GOHIRIO / CANSLO / NIFEROEDD IS

Rhaid hysbysu USWCEF yn ysgrifenedig os bydd angen gohirio neu ganslo'r bwciad llawn, neu ran ohono, neu y bydd niferoedd is o gynrychiolwyr yn bresennol. Bydd angen talu ffi gohirio a/neu ganslo, fel y nodir isod, oni bai y bydd trydydd parti yn bwcio'r un dyddiadau ar delerau nad ydynt yn llai ffafriol:

<u>Gohirio</u>	
Caiff derbyn hysbysiad un deg pedwar (14) diwrnod gwaith o leiaf cyn dyddiad dechrau'r digwyddiad ei ystyried yn ohirio. Caiff derbyn hysbysiad o fewn un deg pedwar (14) diwrnod gwaith ei ystyried yn ganslo (gweler y ffioedd isod).	£25.00 + TAW am logi'r ystafell, yn ogystal ag unrhyw ffi llety (os trefnwyd) sy'n cael ei hamodi yn y Telerau ac Amodau Llety.

<u>Canslo</u>	
Os derbynnir hysbysiad ysgrifenedig lai na thriedeg (30) diwrnod gwaith (gan gynnwys penwythnosau a gwyliau banc yng Nghymru a Lloegr) cyn dyddiad dechrau'r digwyddiad.	Mae 100% o gyfanswm cost llogi'r ystafell yn daladwy.
Os derbynnir hysbysiad ysgrifenedig lai dau (2) ddiwrnod gwaith cyn dyddiad dechrau'r digwyddiad.	Mae 100% o gyfanswm cost llogi'r ystafell, arlwyo a llety (os trefnwyd) yn daladwy.
Hefyd, os bydd Archeb Prynu wedi cael ei derbyn am fwciad, codir tâl o 50% o'r ffi llogi ystafell am unrhyw ganslo y tu allan i'r telerau uchod fel ffi bwcio.	

Os bydd argyfwng y tu allan i reolaeth USWCEF, rydym ni'n cadw'r hawl i ddod â'r cytundeb hwn i ben. Bydd USWCEF yn ymdrechu i ddarparu cyfleusterau cyfarfod eraill, ond ni all warantu y bydd yn gallu gwneud hynny.

YSTAFELLOEDD DIGWYDDIADAU/CYFARFOD

Y Brifysgol sy'n pennu uchafswm y cynrychiolwyr a ganiateir ym mhob ystafell digwyddiad/gyfarfod, trwy ymgynghori â'r Swyddog Tân, ac ni ddylid rhagori ar y nifer hwn.

Os bydd cyfradd cynrychiolwyr dydd yn cael ei chymhwyso i fwciad, bydd nifer isafswm o gynrychiolwyr yn cael ei osod, a'i eitemeiddio ar y cadarnhad. Bydd ffi llogi ystafell ychwanegol yn cael ei chodi os bydd y niferoedd yn disgyn islaw hyn.

Ni ddylid defnyddio'r cyfleusterau at unrhyw ddiben arall na'r hyn a gytunwyd gan USWCEF.

Ni cheir defnyddio'r cyfleusterau am unrhyw weithgareddau sy'n beryglus, sarhaus, niweidiol, anghyfreithlon neu anfoesol, neu a all fod yn niwsans i'r Brifysgol neu drigolion lleol.

Ni ddylai'r llogwr ganiatáu i unrhyw drydydd parti ddefnyddio'r cyfleusterau at unrhyw ddiben.

Ni ddylid storio eitemau dros nos yn eiddo'r Brifysgol heb awdurdod y Rheolwr Cynadleddau. Codir ffi storio o £25+TAW fesul eitem, y noson, yn yr achosion hynny, a bydd unrhyw

nwyddau na chânt eu casglu o fewn saith niwrnod yn cael eu gwaredu.

Os bydd y digwyddiad/cyfarfod yn mynd y tu hwnt i'r amser gorffen a nodir ar y cadarnhad bwcio, codir tâl ychwanegol o £50+TAW fesul ystafell, yr awr, neu ran o hynny.

DIFROD

Cyfrifoldeb y llogwr yw sicrhau, ar ddiwedd y digwyddiad, bod pawb wedi gadael yr holl leoliadau, a bod yr holl ddodrefn ac eiddo'n cael eu gadael mewn cyflwr glân, heb eu difrodi.

Os bydd unrhyw ddifrod i eiddo'r Brifysgol, bydd y llogwr yn derbyn anfoneb gan y Brifysgol i dalu am gost amnewid/trwsio. Bydd hyn yn cynnwys difrod, colled neu ladrad o eiddo'r Brifysgol, a difrodi neu ddefnyddio offer tân.

Rhaid i'r llogwr gael caniatâd ysgrifenedig USWCEF os byddant yn dymuno rhoi eitemau ar waliau, lloriau neu nenfydau'r lleoliad.

DIM SMYGU

Mae'r Brifysgol a'i heiddo yn barthau di-fwg er diogelwch ei staff, myfyrwyr ac ymwelwyr, ac mae ganddi bolisi sy'n cwmpasu deddfwriaeth y llywodraeth, sef Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2018. Felly, caniateir smygu, gan gynnwys y defnydd o e-sigaréts, mewn manau penodol o'r Brifysgol (os oes gennych unrhyw amheuaeth, tybiwch na chaniateir smygu). Mae'n ofynnol i holl westeion cynadleddau, ymwelwyr, myfyrwyr a staff ddilyn y polisi hwn tra eu bod nhw ar eiddo'r Brifysgol.

PLANT O DAN 18 OED AC OEDOLYN CYFRIFOL

Mae USWCEF yn mynnu penodi oedolyn cyfrifol i oruchwylio bwciadau sy'n cynnwys pobl ifanc o dan 18 oed. Bydd yr oedolyn cyfrifol hefyd yn gyfrifol am ddiogelu, a dylai fod ganddo/ganddi wriad uwch cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Rhaid rhoi enw a rhif ffôn cyswllt yr oedolyn cyfrifol i USWCEF er mwyn gallu cysylltu ag ef yn ystod y digwyddiad.

Rhaid i'r oedolyn cyfrifol fod yn bresennol trwy gydol y digwyddiad, ac ni chaiff ddirprwyo ei gyfrifoldeb heb roi gwybod i USWCEF pwy fydd yr oedolyn cyfrifol dirprwyedig yn y digwyddiad, a chadarnhau bod gan yr oedolyn cyfrifol dirprwyedig wriad uwch cyfredol gan DBS.

Bydd yr oedolyn cyfrifol yn sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys y Ddeddf Plant (1989 a diwygiadau dilynol).

Rhaid i'r oedolyn cyfrifol oruchwylio'r holl bobl ifanc o dan 18 oed bob amser, a bydd yn gyfrifol am unrhyw gamau gweithredu, difrod neu atebolrwydd.

Mae angen i riant/gwarcheidwad cyfreithiol pob unigolyn ifanc lenwi Ffurflen Ganiatâd ar gyfer unrhyw driniaeth feddygol angenrheidiol a all fod angen ei rhoi gan ein Canolfan Iechyd ar y safle, mewn argyfwng. Bydd USWCEF yn darparu'r ffurflenni at y diben hwn.

Rhaid i'r holl blant a phobl ifanc sy'n ymweld â'r Brifysgol, naill ai fel rhan o ddigwyddiad wedi'i drefnu neu fel unigolion (gydag aelodau o staff neu fyfyrwyr, er enghraifft):

- Gael eu goruchwylio bob amser gan oedolyn cyfrifol
- Derbyn hyfforddiant ymsefydlu, lle y bo'n berthnasol
- Derbyn gwybodaeth am weithdrefnau risg a gweithdrefnau mewn argyfwng, lle y bo'n briodol

Cymhareb oedolion i blant a phobl ifanc sy'n ymweld â'r Brifysgol:-

Oed	Nifer yr oedolion (21 oed a hŷn)	Nifer y plant/pobl ifanc
0 hyd at 3 oed yn gynwysedig	1	1
4 oed hyd at 5 oed yn gynwysedig	1	3
6 oed hyd at 11 oed yn gynwysedig	1	10
12 oed hyd at 17 oed yn gynwysedig	1	15

Rhaid cynyddu nifer yr oedolion i sicrhau cymorth a goruchwyliaeth ddigonol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion ymddygiadol neu ychwanegol

Mae gan rai ardaloedd penodol, gan gynnwys gweithdai a rhai labordai, fynediad cyfyngedig yn unig. Ni chaniateir mynediad i ymwelwyr, oni bai bod yr ymweliad yn rhan o weithgaredd wedi'i threfnu.

DEUNYDD CYHOEDDUSRWYDD

Dylai unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd [tudalennau gwe, deunydd argraffedig, darllediadau, y cyfryngau cymdeithasol ac ati] gyfeirio at y Brifysgol fel y lleoliad yn unig, ac ni ddylai awgrymu mewn unrhyw ffordd mai'r Brifysgol yw darparwr neu drefnydd y digwyddiad. Ni ddylid cynnwys unrhyw gymeradwyaeth neu gysylltiad arall â'r Brifysgol ar unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd.

Ceir defnyddio logo'r Brifysgol ar gyfer hysbysebu neu ar lenyddiaeth y digwyddiad yn unig, gyda chaniatâd ymlaen llawn gan USWCEF. Os rhoddir caniatâd, mae logo'r Brifysgol ar gael ar ffurf ffeiliau eps, tiff neu jpg, a rhaid eu defnyddio fel y nodir yng nghanllawiau brand y Brifysgol.

Mae'r llogwr yn cytuno i USWCEF a'r Brifysgol hyrwyddo eu digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn deunyddiau marchnata, a gall hyn gynnwys ffotograffau o'r digwyddiad.

DARPARIAETH WI-FI

Mae mynediad at Wi-Fi ar gael i westeion digwyddiadau.

Mae'r cyfleuster hwn yn darparu mynediad cyfyngedig at y rhyngwrwd h.y. tudalennau gwe cyhoeddus ac e-bost ar y rhyngwrwd yn unig; efallai na fydd gwasanaethau a rhaglenni eraill

yn gweithio. I ddefnyddio'r cyfleuster hwn, rhaid bod gan y gwesteion eu gliniadur, llechen neu ffôn eu hunain.

Dylai gwesteion sydd eisoes wedi cofrestru i ddefnyddio rhwydwaith eduroam yn eu prifysgolion/sefydliadau eu hunain, gysylltu'n awtomatig â'r rhwydwaith. Mae cysylltu â'r rhwydwaith hon yn gyfrifoldeb prifysgolion/sefydliadau y gwesteion eu hunain.

YSWIRIANT

Bydd angen yswiriant trydydd parti ar y llogwr, i'r graddau sy'n ofynnol gan y Brifysgol. Bydd y cleient yn digolledu'r Brifysgol yn erbyn pob colled a difrod ac yn erbyn pob cais, achos a chostau oherwydd neu yn sgil y bwciad.

Ac eithrio lle bydd y Brifysgol yn esgeulus, nid yw'r Brifysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled neu ddifrod i eiddo personol.

Nid yw'r Brifysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am anafiadau i gynrychiolwyr, ymwelwyr na gwesteion tra eu bod nhw ar eiddo'r Brifysgol. Cynghorir y llogwr i drefnu yswiriant digonol.

Ni fydd y Brifysgol yn atebol am fethu cydymffurfio ag unrhyw un o delerau neu amodau'r contract hwn i'r graddau y caiff cydymffurfio ei atal, ei rwystro neu ei ohirio gan unrhyw achos y tu hwnt i'w rheolaeth, ond heb fod yn gyfyngedig i dân, stormydd, ffrwydrad, llifogydd, eira, gweithred Duw, gweithred unrhyw Lywodraeth neu Asiantaeth Lywodraethol, prinder deunyddiau neu nwyddau, streic neu gael eu cau allan.

DIOGELWCH

Ni ddylid gadael offer gwerthfawr mewn unrhyw ystafelloedd heb unrhyw un i ofalu amdanynt. Gellir gwneud trefniadau i staff gloi ystafelloedd yn ystod egwyliau lluniaeth a chinio, os oes angen.

IECHYD A DIOGELWCH

Os byddwch yn darparu eich offer/adloniant eich hunain, bydd yn ofynnol i chi ddangos tystiolaeth o brofion a thystysgrifau diogelwch perthnasol, asesiadau risg a dogfennau yswiriant cysylltiedig. Rhaid i atebolrwydd am unrhyw offer/gweithgarwch a gyflwynir ar eiddo'r Brifysgol gael eu cynnwys o dan 'Yswiriant Atebolrwydd' y cleient ei hun. Ni fydd staff USWCEF na staff y Brifysgol yn gyfrifol am symud unrhyw offer y mae'r llogwr yn dod gydag ef, nac offer eu siaradwyr na'u cynrychiolwyr.

Sylwer na chaniateir canhwylau wedi'u cynnau, llosgwyr arogldarth na ffresnydd aer plygio i mewn yn y safleoedd.

Rhaid i'r holl logwyr, eu siaradwyr a'u cynrychiolwyr gydymffurfio â holl arweiniad a rheoliadau iechyd a diogelwch, a diogelwch tân, y Brifysgol.

Bydd y llogwr yn derbyn, ac yn cynghori eu cynrychiolwyr, bod y gegin a'r manau paratoi bwyd yn y ganolfan gynadledda, a holl safleoedd eraill y Brifysgol, yn waharddedig, a bydd yn ofynnol i unrhyw un, ar wahân i staff awdurdodedig y Brifysgol, sy'n cyrchu'r manau hynny neu sy'n ceisio defnyddio'r offer ynddynt, adael safle'r Brifysgol.

GWASANAETHAU ARLWYO A GWASANAETHAU WEDI'U HIS-GONTRACTIO

Rhaid rhoi gwybod am fwydlenni, gofynion dietegol arbennig a niferoedd, heb fod yn hwyrach nag un deg pedwar (14) diwrnod cyn dechrau'r digwyddiad. Rhaid cadarnhau'r niferoedd terfynol deuddydd (2) gwaith cyn y digwyddiad.

Ar gyfer digwyddiadau mwy lle bydd angen arlwyo ar gyfer dros 100 o gynrychiolwyr, rhaid rhoi gwybod am fwydlenni a niferoedd un (1) mis ymlaen llaw, a rhaid cadarnhau'r niferoedd terfynol un deg pedwar (14) diwrnod gwaith cyn y digwyddiad.

Os bydd y niferoedd terfynol yn is na'r nifer a nodwyd yn flaenorol, codir y ffi arlwyo lawn.

Os bydd y niferoedd yn cynyddu mwy nag un ddeg pump (15) o gynrychiolwyr, bydd angen cadarnhad gan y Rheolwr Arlwyo ymlaen llaw, a bydd derbyn y cynnydd yn unol â disgresiwn USWCEF.

Darperir bwydlenni fel canllaw yn unig, ac maent yn amodol ar newid, a chânt eu hadolygu i weddu i nifer y cynrychiolwyr a'r gynulleidfa – gellir darparu copi.

Gall arlwyo ar gyfer llai na hanner cant (50) o gynrychiolwyr, a bwciadau gyda'r nos/ar benwythnos fod yn amodol ar dâl ychwanegol; caiff hyn ei gadarnhau yn ysgrifenedig adeg yr ymholiad.

Sylwer mai bwyd a diod a ddarperir gan y Brifysgol yn unig y gellir ei weini mewn unrhyw ystafell gyfarfod neu allfa arlwyo yn y Brifysgol.

Ni cheir mynd â bwyd ymaith a ddarperir ar gyfer prydau o'r safle ar ôl digwyddiad h.y. eitemau lluniaeth, byrbrydau a bwffe, yn unol â deddfwriaeth bwyd, i gynnwys Deddf Diogelwch Bwyd (Rheoli Tymheredd) 1995.

Bydd unrhyw gais i aildrefnu dosbarthu lluniaeth neu amserau prydau yn amodol ar ddisgresiwn y Rheolwr Arlwyo.

Os na fydd nwyddau/cyflenwadau ar gael, neu os ydyn nhw wedi cael eu terfynu neu'n anhyfyw'n economaidd e.e. gwin neu fwydydd, bydd nwyddau eraill yn cael eu cynnig.

COSTAU

Mae USWCEF yn cadw'r hawl i gynyddu'r costau a ddyfynnir, os rhoddir rhybudd i'r llogwr am y cynnydd heb fod yn hwyrach na chant dau ddeg (120) diwrnod cyn dechrau'r digwyddiad.

Os darperir gwasanaethau gan is-gontractwr, mae USWCEF yn cadw'r hawl i drosglwyddo unrhyw gynnydd mewn costau ar gyfer gwasanaethau ar unrhyw adeg.

Mewn amgylchiadau penodol, gall fod angen ychwanegu costau ychwanegol am eitemau fel glanhau ychwanegol neu oramser staff, lle bo'r angen, i wasanaethu'r digwyddiad.

DIOGELU DATA

Mae USWCEF yn cymryd ei gyfrifoldebau'n ddifrifol iawn wrth brosesu'r data personol y mae'n ei gasglu o ran staff, myfyrwyr a phawb arall y mae'n rhyngweithio â nhw. Mae'r Brifysgol yn Rheolwr Data at ddibenion deddfwriaeth diogelu data ac mae wedi'i chofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae data personol yn unrhyw ddata y gellir adnabod unigolyn byw ohono. Caiff prosesu data personol gan USWCEF ei gwmpasu gan deddfwriaeth diogelu data, sy'n cynnwys y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data (DPA) 2018, ac mae'n cadw at y fframwaith sy'n sicrhau bod USWCEF

yn prosesu data personol mewn modd agored a thryloyw, a chan roi sylw priodol i hawliau a rhyddid unigolion.

AMODAU ERAILL

Ni cheir dod ag unrhyw anifeiliaid, ar wahân i gŵn cymorth (cewch fanylion ar <http://www.assistedogs.org.uk/law/>), i safleoedd y Brifysgol. Os bydd angen dod â chŵn cymorth i safleoedd y Brifysgol, rhwch wybod ymlaen llaw er mwyn i ni allu gwneud addasiadau rhesymol i ateb gofynion y cŵn.

Dylai'r llogwyr a'u cynrychiolwyr ymatal rhag unrhyw ymddygiad y gellir ei ystyried yn aflonyddu neu gythruddo defnyddwyr eraill y Brifysgol ar unrhyw sail, yn arbennig ar sail rhyw, cenedligrwydd, hil, crefydd neu rywioldeb a chyfeiriadedd rhywiol. Dylai llogwyr a'u cynrychiolwyr ymddwyn ag urddas, cwrteisi a pharch.

Mae'n ofyniad bod USWCEF yn ystyried a fydd unrhyw ddigwyddiad yn debygol o gael effaith ar enw da'r Brifysgol, a hefyd ystyried a oes unrhyw effaith hysbys neu debygol ar ddiogelwch myfyrwyr, staff neu'r gymuned ehangach sy'n mynychu'r digwyddiad neu a sbardunir gan gynnal y digwyddiad. Mae hyn yn cynnwys effaith niweidiol ar eiddo'r Brifysgol a busnes arferol.

Mae gan USWCEF yr hawl i wneud cais am wybodaeth am unrhyw siaradwr allanol neu bwnc trafod arfaethedig. Os na roddir gwybodaeth ddigonol, efallai y caiff y bwciad ei ganslo. Rhaid darparu'r wybodaeth hon o leiaf ddau ddeg un (21) diwrnod cyn dechrau'r digwyddiad. Mae'n ofynnol i bob siaradwr ddarllen a chadw at Rhyddid i Lefaru ar Safleoedd y Brifysgol: Cod Ymarfer (atodiad 1) ac unrhyw bolisi sy'n ymwneud ag Urddas yn y Gwaith ac Wrth Astudio. Os oes unrhyw bryderon y bydd y digwyddiad yn torri unrhyw ddarpariaethau neu ymrwymadau cyfreithiol y Brifysgol, yna efallai y caiff y bwciad ei wrthod neu ei ganslo.

Er unrhyw ganiatâd a roddir gan USWCEF, rydym ni'n cadw'r hawl, adeg y digwyddiad, i beidio â derbyn gwasanaethau allanol i'r safle, a pheidio â chael offer allanol wedi'i osod ar y safle os, yn ein barn resymol ni, y byddai gwneud hynny'n achosi:

- (a) perygl i iechyd a diogelwch gwesteion a/neu weithwyr;
- (b) tramgwydd i westeion a/neu weithwyr; neu
- (c) cyflawni trosedd neu dorri unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.

Mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn angenrheidiol codi tâl ychwanegol am eitemau fel glanhau ychwanegol, goramser staff, a chymorth TG, os oes angen, i wasanaethu'r digwyddiad.

Mae USWCEF yn cadw'r hawl i godi ffi weinyddol am ddod o hyd i gyflenwyr allanol ar gyfer cynadleddau a digwyddiadau.

Ni ellir gwarantu defnydd neilltuedig o'r safle, oni bai bod y contract yn nodi llogi'r safle cyfan.

Mae USWCEF yn cadw'r hawl i wrthod bwciad, yn ôl ein disgrisiwn, os oes rheswm cyfiawnadwy clir dros wneud hynny.

LLETY

I drefnu lle ymlaen llaw, mae angen amcangyfrif realistig o niferoedd, o leiaf ddeufis cyn y bwciad, er mwyn i Dîm Gwasanaethau Llety'r Brifysgol allu cysylltu â'r darparwr gwasanaethau glanhau.

Mae'r ystafelloedd gwely ar gyfer un unigolyn yn unig (ac eithrio'r fflatiau Stiwdio, sydd ar gyfer dau o bobl). Dylai'r llogwr sicrhau nad yw cyfanswm y bobl sydd eisiau llety yn rhagori ar y nifer y mae wedi bwcio lle ar eu cyfer.

Rhaid cadarnhau'r isafsymiau dau ddeg un (21) diwrnod cyn cyrraedd, at ddibenion codi tâl. Gall y niferoedd terfynol gynyddu wedi hyn, yn unol ag argaeledd a chadarnhad gan USWCEF. Codir ffi canslo am unrhyw ostyngiad mewn niferoedd yn ystod y cyfnod hwn, yn unol â'r polisi canslo.

Dylid llenwi a dychwelyd y rhestrau ystafelloedd heb fod yn hwyrach na saith (7) niwrnod cyn cyrraedd i fodloni rheoliadau diogelwch ac i alluogi'r Brifysgol i ddarparu gwasanaeth effeithlon. Bydd USWCEF yn darparu templed ar gyfer hyn.

Bydd ystafelloedd ar gael o 2.00pm ar y diwrnod cyrraedd a rhaid gadael heb fod yn hwyrach na 10.00am ar ddiwrnod olaf y bwciad, oni bai bod trefniadau eraill wedi cael eu gwneud gyda Rheolwr Cynadleddau USWCEF.

Rhaid i bob grŵp gael arweinydd grŵp y bydd USWCEF yn cysylltu ag ef/hi trwy gydol y cyfnod llogi. Rhaid rhoi rhif ffôn cyswllt er mwyn i USWCEF allu cysylltu â'r unigolyn hwn 24/7 os bydd unrhyw broblemau yn ystod yr arhosiad.

Codir tâl am unrhyw gardiau allwedd coll ar yr anfoneb derfynol i'r llogwr ar gost o £10 fesul cerdyn allwedd.

Nid yw'r prisiau'n cynnwys unrhyw wasanaethau na chynhyrchion ychwanegol a ddefnyddir yn ystod eich arhosiad. Mae pob cost "gysylltiedig", ynghyd â chyfanswm pris yr arhosiad ar gyfer pob ystafell a fwcwyd, yn daladwy pan fyddwch yn gadael.

Ni cheir dod ag unrhyw anifeiliaid, ar wahân i gŵn cymorth (cewch fanylion ar <http://www.assistancedogs.org.uk/law/>), i safleoedd y Brifysgol.

Byddwch yn ymwybodol bod bwciadau llety yn amodol ar Delerau ac Amodau ychwanegol, ar wahân.

CWYNION

Dylid trafod unrhyw gwynion gyda'r Rheolwr Cynadleddau. Rhaid cyflwyno'n ysgrifenedig unrhyw angydfod sy'n codi ar ôl y digwyddiad/arhosiad i'r Rheolwr Cynadleddau o fewn saith (7) niwrnod gwaith ar ôl y digwyddiad.

Gall unrhyw gwynion a dderbynnir yn sgil ymddygiad afreolus grŵp neu unigolyn arwain at ofyn i'r parti dan sylw adael y digwyddiad a safle'r Brifysgol ar unwaith.

GWYBODAETH GYSWLLT

Gwasanaethau Cynadledda
Prifysgol De Cymru

Ffôn: 01443 482002

Prifysgol De Cymru

Ffacs: 01443 482914

Heol Llanilltud

e-bost: events@southwales.ac.uk

Trefforest,

Gwefan: www.uswconferenceservices.co.uk

Pontypridd

CF37 1DL

Atodiad 1

PRIFYSGOL DE CYMRU

RHYDDID I LEFARU AR SAFLEOEDD Y BRIFYSGOL: COD YMARFER

Cyflwyniad

Mae Prifysgol De Cymru yn sefydliad cynhwysol sydd â'r nod o ddarparu amgylchedd lle galluogir unigolion i fodloni eu llawn botensial a mynegi eu hunain yn rhydd o fewn y gyfraith.

Mae'r Brifysgol yn gymuned academaidd o staff a myfyrwyr. Yn ganolog i'r cysyniad hwn mae gallu ei holl aelodau i herio uniongrededd cyffredin yn rhydd, cwstyynu barn a safbwyntiau pobl eraill, a chyflwyno syniadau radical a all fod yn ddadleuol weithiau. Mae amgylchedd o drafodaeth rydd ac agored yn hanfodol i ddatblygu meddyliau bywiog, ymholgar, ac mae'r gallu i gwestiynu, dadlau a gwrandao yn elfen ganolog o addysg Prifysgol.

Mae Deddf Diwygio Addysg 1988 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Sefydliadau Addysg Uwch sicrhau bod gan staff academaidd y rhyddid o fewn y gyfraith i gwestiynu a phrofi doethineb cyffredin, a chyflwyno syniadau newydd, a barn ddadleuol ac amhoblogaidd, heb roi eu hunain mewn perygl o gollu eu swyddi nac unrhyw freintiau sefydliadol. Mae cysyniadau rhyddid academaidd a rhyddid i fynegi yn gymhleth, ac nid yw bob amser yn hawdd cydbwysu â'r cyfrifoldeb i ddiogelu unigolion rhag gwahaniaethu ac aflonyddu, a sicrhau diogelwch y cyhoedd. Nid yw'r hawl i ryddid academaidd yn ddiamed - mae'n diogelu pobl wrth gymryd rhan mewn gweithgarwch academaidd ac o fewn eu maes arbenigedd proffesiynol eu hunain yn unig, a hyd yn oed wedyn, dim ond pan na thybir bod pryderon eraill, fel diogelwch cenedlaethol a threfn gyhoeddus, dan fygythiad.

Ar yr un pryd, mae'r Brifysgol yn ymroi i greu cyd-destun lle gall staff a myfyrwyr weithio ac astudio heb gael eu llesteirio gan elyniaeth, ymddygiad sarhaus neu fygythiadau. Disgwylir i staff a myfyrwyr barchu hyn yn y modd a'r dôn y maent yn mynegi eu safbwyntiau. Mae'r egwyddor hon yn ymestyn i ymddygiad ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

Nid yw Prifysgolion yn gweithredu mewn gwactod. Rydym ni'n gymuned amrywiol ac yn gwerthfawrogi'r cyfoeth a gyflwynir i fywyd academaidd y sefydliad yn sgil amrywiaeth a gwahaniaeth, a'n gallu i ymgysylltu'n fyd-eang. Gall gwrthdaro ac anghydfod ehangach, sy'n ymwneud ag ethnigrwydd neu ffydd grefyddol yn aml, weithiau gael ei fynegi ar y campws ymhlith gymuned y Brifysgol neu etholaethau eraill. Yr her i brifysgolion yw amlygu pryd mae mynd ar drywydd rhyddid syniadau a mynegiant yn croesi trothwy ac yn mynd yn niweidiol.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod gan bobl â safbwyntiau radical bethau i'w dweud. Yng nghyd-destun cymuned y Brifysgol, mae'n bwysig bod safbwyntiau felly'n cael eu mynegi mewn ffordd sy'n ei gwneud hi'n glir nad ydynt yn ffafriol i, nac yn gefnogol i, achosi niwed neu drais.

Mae egwyddorion cyfreithiol cyffredinol, ac adrannau penodol o ddeddfwriaeth, yn darparu y caniateir cyfyngiad cymesur a rhesymol ar fynegiant er mwyn cynnal trefn a diogelwch cyhoeddus, neu i sicrhau nad yw'r gyfraith yn cael ei thorri. Er bod y Brifysgol yn cydnabod hawl staff a myfyrwyr i fynegi barn yn groes i'r safbwynt corfforaethol, nid yw'r rhyddid i lefaru yn ddiamed. O bryd i'w gilydd, bydd y Brifysgol yn gorfod pwysu a mesur galwadau sy'n gwrthdaro am fynegi syniadau yn rhydd yn gyhoeddus, yn erbyn pryderon ar ei rhan ynghylch trefn a diogelwch cyhoeddus, neu'r potensial i dorri'r gyfraith. Hefyd, mae gan y Brifysgol ddyletswydd o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 i atal staff a myfyrwyr rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth, a sicrhau eu bod nhw'n cael cyngor a chymorth priodol. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod ganddi gyfrifoldeb cyfreithiol a moesegol i weithredu mewn modd rhagweithiol er mwyn lleihau'r posibilrwydd y bydd eithafiaeth niweidiol neu

anoddefgarwch yn codi ar y campws, ac ar yr un pryd, sicrhau parhad cyffredinol rhyddid i lefaru. Mae hwn yn gyfrifoldeb pob aelod o staff hefyd. O ganlyniad, dylid darllen y Cod Ymarfer hwn ochr yn ochr â phrotocol PREVENT y Brifysgol, a'r Polisi Siaradwyr Allanol. Dylai staff sydd angen mwy o gyngor wrth ystyried y materion hyn gysylltu ag arweinydd PREVENT y Brifysgol, sef yr un man cyswllt (SPOC) dynodedig ar gyfer yr holl faterion sy'n ymwneud â PREVENT.

Deddfwriaeth berthnasol ac arfer da

O dan Adran 43 *Deddf Addysg (Rhif 2) 1986*, er nad oes rwymedigaeth gyfreithiol ar y Brifysgol i ganiatáu cyfarfodydd, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Brifysgol 'gymryd camau sy'n ymarferol yn rhesymol i sicrhau y diogelir rhyddid i lefaru o fewn y gyfraith ar gyfer aelodau, myfyrwyr a gweithwyr y sefydliad, a siaradwyr gwadd'. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd i sicrhau, cyn belled ag sy'n ymarferol yn rhesymol, na chaiff safleoedd y Brifysgol eu gwrthod i unrhyw unigolyn neu gorff o bobl ar sail eu credoau, safbwyntiau, polisïau neu amcanion.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliad gyflwyno cod ymarfer a'i gadw'n gyfredol, sy'n gosod y gweithdrefnau i'w dilyn gan aelodau, myfyrwyr a gweithwyr y sefydliad o ran trefnu cyfarfodydd a gweithgareddau eraill ar ei safleoedd, ac ymddygiad sy'n ofynnol o'r rheiny sy'n cymryd rhan.

Mae'r Cod Ymddygiad hwn wedi cael ei ddylunio i gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986, Deddf Trefn Gyhoeddus 1986, Deddf Hawliau Dynol 1998, a Deddf Cydraddoldeb 2010. Fe'i datblygwyd yn sgil yr arweiniad a'r arfer da a gyhoeddwyd yn *Rhyddid i Lefaru ar y Campws: Hawliau a Chyfrifoldebau Prifysgolion y DU* (2011), Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, a chyhoeddiad y Llywodraeth, '*Prevent Duty Guidance: Guidance for specified authorities in England and Wales on the duty in the Counter-Terrorism and Security Act 2015 to have due regard to the need to prevent people from being drawn into terrorism*'.

Cwmpas y Cod Ymarfer

Mae darpariaethau'r Cod Ymarfer hwn yn berthnasol i holl staff a myfyrwyr y Brifysgol, a'r holl ymwelwyr. Maent hefyd yn berthnasol, fel y bo'n briodol, i sefydliadau allanol sy'n dymuno defnyddio safleoedd y Brifysgol, ac i gyfarfodydd cyhoeddus, a drefnir gan staff, myfyrwyr neu sefydliadau allanol, a gynhelir ar y safle. Er bod darpariaethau manwl y Cod yn gysylltiedig yn bennaf â digwyddiadau ffurfiol, dylid deall bod yr egwyddorion hefyd yn gymwys i ddiogelu rhyddid i lefaru o fewn y gyfraith yn ystod digwyddiadau cymdeithasol, preifat a hamdden.

Diffiniadau a Chyfrifoldebau

O fewn y Cod Ymarfer:

Caiff '**siaradwr allanol**' ei ddiffinio fel unrhyw unigolyn nad yw'n fyfyrwr, gweithiwr neu aelod arall o'r Brifysgol, aelod o staff Undeb y Myfyrwyr, neu aelod o staff y Gaplaniaeth, sy'n cael eu gwahodd i siarad yn safleoedd y Brifysgol ar achlysuron ar wahân i'r rheiny sy'n rhan arferol o raglen astudio academaidd bresennol a awdurdodir gan yr awdurdod academaidd perthnasol, neu fel rhan arferol o fusnes awdurdodedig ffurfiol y Brifysgol, fel ymgynghoriad staff cymorth neu hyfforddiant. Mae'r diffiniad hefyd yn cynnwys unrhyw aelod o staff y

Brifysgol a all gael ei wahodd i siarad mewn digwyddiad nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â'i swydd. Nodir hyn ym mholisi Siaradwyr Allanol y Brifysgol.

Caiff y **'Swyddog Cyfrifol'** sydd hefyd yn gyswllt PREVENT ar gyfer pob cyfadran neu adran, ei ddiffinio fel yr unigolyn a benodir i fynd i'r afael yn gyntaf ag unrhyw broblem rhyddid i lefaru, a cheisiadau am Siaradwyr Allanol. Bydd swyddog cyfrifol/ cyswllt PREVENT dynodedig ym mhob cyfadran, adran, Undeb y Myfyrwyr, a'r Undebau Llafur cydnabyddedig. (Gweler: Protocol PREVENT)

Arweinydd PREVENT yw'r unigolyn a benodir gan y Brifysgol i fod yn un man cyswllt (SPOC) allanol a mewnol, sydd â chyfrifoldeb penodol dros gynghori staff ar faterion sy'n ymwneud â PREVENT, a chydlynu ac arwain ymateb y Brifysgol, os bydd pryder yn codi. (Gweler: Protocol PREVENT)

Caiff y **'Prif Drefnydd'** ei ddiffinio fel yr unigolyn sy'n cymryd cyfrifoldeb dros y digwyddiad, naill ai wedi'i drefnu gan ef ei hun, neu gan eraill. (Gweler: Polisi Siaradwyr Allanol)

Ysgrifennydd y Brifysgol yw'r unigolyn sy'n atebol yn y pen draw i'r Is-ganghellor, a thrwy'r Is-ganghellor i Fwrdd y Llywodraethwyr, am sicrhau cydymffurfio â'r Cod Ymarfer hwn.

Egwyddorion a Gweithdrefnau

1. Cyn belled ag sy'n ymarferol yn rhesymol, ni ddylid gwahardd unrhyw unigolyn neu gorff rhag defnyddio unrhyw un o safleoedd y Brifysgol ar unrhyw sail sy'n gysylltiedig â'u cred, safbwyntiau, polisiâu neu amcanion.
2. Mae'r Brifysgol yn ystyried ei bod hi'n briodol gwrthod cynnal unrhyw ddigwyddiad a allai, ym marn resymol Ysgrifennydd y Brifysgol:
 - a. Arwain at fynegi safbwyntiau sy'n groes i gyfraith droseddol ac a allai annog y rheiny sy'n mynychu i achosi niwed difrifol neu greu awyrgylch sy'n ffafriol i derfysgaeth.
 - b. Cynnwys aflonyddwch neu wahaniaethu anghyfreithlon ar sail rhyw, hil, anabledd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd/cred a/neu oedran, rhyw a beichiogrwydd/mamolaeth.
 - c. Torri'r gyfraith cydraddoldeb, e.e. digwyddiad (ar wahân i weddi/wasanaeth crefyddol) lle mae arwahanu o ran y rhywiau.
 - ch. Cefnogi'n uniogyrchol sefydliad sy'n hyrwyddo neu'n annog casineb tuag at unigolion neu grwpiau.
 - d. Arwain at anhrefn difrifol neu dorheddwch.
3. Bydd y ffactorau canlynol yn cael eu hystyried hefyd wrth benderfynu p'un ai i gymeradwyo'r defnydd o safle'r Brifysgol ar gyfer y digwyddiad ai peidio:
 - a. Diogelwch y bobl sy'n mynychu'r digwyddiad a'r rheiny yn y cyffnau a allai fod mewn perygl personol.
 - b. Diogelwch safleoedd y Brifysgol.
 - c. Y niwed posibl i enw da'r Brifysgol.

ch. Polisiâu Undeb y Myfyrwyr Prifysgol De Cymru sy'n ymwneud â defnyddio cyfleusterau Undeb y Myfyrwyr.

4. Nid yw rhoi caniatâd i gynnal digwyddiad yn awgrymu bod y Brifysgol (na'i staff neu fyfyrwyr) yn cefnogi credoau, safbwyntiau, polisiâu nac amcanion yr unigolyn neu grŵp dan sylw.
5. Mae'n ofynnol i'r holl staff a myfyrwyr sydd â chyfrifoldeb am ddefnyddio'r safleoedd gofnodi unrhyw wahoddiad a estynnir i siaradwr allanol ar offeryn gwe Engage, yn unol â'r Polisi Siaradwyr Allanol. Maent hefyd yn gyfrifol am ddod â'r Cod Ymarfer hwn at sylw'r rheiny sy'n bwriadu gwahodd siaradwr allanol neu drefnu digwyddiad.
6. Mae'n ofynnol i Brif Drefnydd cyfarfod neu weithgarwch lle gwahoddir siaradwr allanol i gymryd rhan, wneud cais yn unol â'r Polisi Siaradwyr Allanol, a chadw at weithdrefnau'r Polisi. Mae'r gofyniad hwn hefyd yn berthnasol i ddigwyddiad lle caiff siaradwr allanol ei ffrydio'n fyw, neu lle caiff ffilm ei dangos ar achlysuron ar wahân i'r rheiny sy'n rhan arferol o raglen astudio academiaidd bresennol a awdurdodir gan yr awdurdod academiaidd perthnasol, neu fel rhan arferol o fusnes awdurdodedig ffurfiol y Brifysgol, neu weithgarwch cymorth myfyrwyr/staff ffurfiol.
7. Mae gan bob Cyswllt PREVENT yr awdurdod i ddechrau neu gymryd camau lle caiff posteri eu harddangos neu drefnu ymgyrchoedd ar y campws a allai fod yn risg o ran y telerau ym mharagraffau 2 a 3 uchod, neu amheuaeth o bresenoldeb carfanau pwysu allanol ar y campws.

Rhaid i Fwrdd y Llywodraethwyr dderbyn adroddiad ar weithrediad y Cod Ymarfer hwn o dro i dro, heb fod yn hwy na thair blynedd, ac ystyried a ddylid ei adolygu. Mae Arweiniad Dyletswydd PREVENT yn faes deddfwriaeth newydd a bydd y Brifysgol yn cael ei harwain ar ei ddatblygiad gan y llywodraeth, partneriaethau ehangach addysg uwch, a chyrrff statudol eraill. Caiff y polisi hwn ei adolygu yn sgil y datblygiadau newydd hynny.